# YMGYRCH HANES CYMRU

**Tan-y-dderwen, Penmachno, Betws-y-coed LL24 0PS**
**owaintan@hotmail.com** **01690 760335**

Kirsty Williams AC
Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Tachwedd 2020

Annwyl Kirsty Williams

Ysgrifennaf yn dilyn y Ddadl a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd i ystyried y ddwy ddeiseb ar ddysgu hanes Cymru a gyflwynwyd i sylw'r Senedd gan y Pwyllgor Deisebau. Derbyniodd alwadau'r deisebau hynny gefnogaeth eang a thrawsbleidiol gan Aelodau megis Siân Gwenllian, Delyth Jewell, Suzy Davies a Neil Hamilton, a oedd yn cytuno bod angen dynodi corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru.

Gwnaed yr un argymhelliad gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn dilyn cynnal ymchwiliad ac ymgynghoriad trwyadl.

Byddai dynodi corff cyffredin o gynnwys sylfaenol yn sicrhau y bydd gan ddisgyblion Cymru ddealltwriaeth greiddiol o ddatblygiad y Cymry fel pobl dros y canrifoedd, a hynny mewn modd a fyddai'n caniatau digon o hyblygrwydd i athrawon lunio meysydd llafur a rhaglenni astudio fyddai'n adlewyrchu nodweddion lleol.

Croesawn y ffaith eich bod yn eich ymateb i'r Ddadl wedi pwysleisio, unwaith yn rhagor, bwysigrwydd astudio hanes Cymru, â hanes pobl o leiafrifoedd ethnig, o ran gwireddu uchelgais a bwriad y cwricwlwm newydd.

Yn wyneb y dystiolaeth o ddiffyg sylw cyfredol i'r agweddau hyn o hanes mewn llawer o ysgolion, mae'n briodol eich bod wedi penodi Dr Charlotte Williams i arwain gweithgor a fydd yn rhoi cyngor ac argymhellion ynghylch themâu sy'n ymwneud â chymunedau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Er mwyn sicrhau cysondeb galwn arnoch, fel mater o fyrder, i sefydlu gweithgor tebyg yng nghyd-destun hanes Cymru, a fydd yn rhoi canllaw i ysgolion ar ffurf corff cyffredin o wybodaeth a chyngor ar ddysgu hanes Cymru yn effeithiol a llwyddiannus, ac i ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen i gefnogi a chynorthwyo athrawon ac ysgolion.

Yn gywir,

Eryl Owain

***Cyd-lynydd Ymgyrch Hanes Cymru***

Yn gywir,

Eryl Owain
***Cyd-lynydd Ymgyrch Hanes Cymru***

Eryl Owain
*(Derbyniwyd drwy e-bost)*

Annwyl Eryl,

24 Tachwedd 2020

**Parthed Ymgyrch Hanes Cymru**

Diolch i chi am anfon copi atom o'ch llythyr at Kirsty Williams AS y Gweinidog Addysg, ynghylch yr ymgyrch dros hanes Cymru mewn ysgolion, dyddiedig 10 Tachwedd 2020.

Mae'r Pwyllgor yn rhannu eich diddordeb yn y maes polisi cyhoeddus hwn a'ch angerdd amdano. Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad helaeth i'r maes hwn yn ystod 2019 yn dilyn arolwg barn y cyhoedd a gynhaliwyd yn 2018. Cymerodd dros 2,500 o bobl ran yn yr arolwg barn hwn, a oedd yn dangos y diddordeb sylweddol sydd gan y cyhoedd yn y pwnc, ac ailddatganwyd hyn ymhellach gan y ddeiseb a'r ddadl a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, yr ydych chi'n cyfeirio atynt yn eich llythyr.

Ers mis Mawrth mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar effaith y pandemig COVID-19 ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae'r pandemig wedi cael effaith yn eang ac mae wedi arwain at orfodi'r Pwyllgor i gydbwyso ac ail-flaenoriaethu ei raglen waith. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau tuag at dymor y Gwanwyn 2021, ac er ei bod yn anodd bod yn bendant ar hyn o bryd, rydym yn mawr obeithio y byddwn o leiaf yn gallu gofyn am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar ei chynnydd wrth weithredu argymhellion y Pwyllgor ar addysgu hanes Cymru fel rhan o waith craffu cyffredinol y Pwyllgor.

Fel y mae pethau, bydd etholiadau'r Senedd hefyd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2021 ac felly mae pwyllgorau'r Senedd nawr yn dechrau meddwl am waith o ran etifeddiaeth. Er nad oes penderfyniadau pendant wedi'u gwneud eto, efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ystyried y materion hyn fel rhan o'n gwaith etifeddiaeth.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Diolch eto am ysgrifennu.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones AS**

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.